# Cyfle wedi'i golli?

**Gosod esiampl / dewrder / sefyll dros yr hyn oedd yn ei gredu / gonestrwydd**

Terry Waite: 1939-

Ydych chi'n meddwl ei bod hi'n iawn defnyddio grym neu drais? Ydych chi'n meddwl ei bod hi'n iawn gwneud niwed i rywun? Ydi trais yn datrys problemau neu'n gwneud pethau'n waeth yn y pen draw? Yn y stori hon cawn hanes Terry Waite. Ar ôl darllen y stori, tybed beth fuasech chi wedi'i wneud?

Glaniodd awyren o Brydain ar faes awyr Beirut. Ymhlith y teithwyr roedd Terry Waite. Pwrpas ei daith oedd ceisio rhyddhau gwystlon oedd wedi eu carcharu gan derfysgwyr.

Roedd criw o ddynion yn ei ddisgwyl. "Dowch efo ni i gyfarfod â'r gwystlon."

Ufuddhaodd Terry Waite. "Mi wnawn ni bob dim i'ch helpu," meddai un arall o'r dynion. I mewn i gefn y car â mwgwd am ei lygaid. Cychwynnodd y car ar gyflymder anhygoel. Ymhen dim roedd y car yn mynd ar hyd ffordd garegog. Teimlai Waite y car yn mynd o ochr i ochr. Stopiodd. "Pryd ga i weld y gwystlon?"

"Yn y munud," oedd yr ateb swta.

Arweiniwyd ef i ystafell. Roedd y mwgwd am ei lygaid o hyd. Rhoddwyd ef i eistedd ar gadair. Syrthiodd i gysgu. Deffrowyd ef gan un o'r dynion a'i arwain o'r ystafell i fan. Ar ôl mynd am ychydig filltiroedd, stopiodd y fan ac arweiniwyd ef i ystafell arall. Tynnodd un o'r dynion y mwgwd oddi ar ei lygaid. Gwthiwyd ef i gell a chlowyd y drws. Mae'n amlwg ei fod wedi cael ei gamarwain gan y dynion. Roedd ef bellach yn wystl. Am y dyddiau oedd yn dilyn bu'r dynion yn dod â bwyd iddo. Ond roedden nhw'n gwrthod yn bendant ateb ei gwestiynau.

Un bore rhoddwyd y mwgwd yn ôl ar ei lygaid. Tybed ai hwn oedd y dydd roedd yn cael ei ryddhau? Na, dim ond ei symud o un gell i'r llall. Rhoddwyd cadwyn am ei goesau a'i ryddhau unwaith y dydd i fynd i'r toiled. Yno, yn nhywyllwch y gell roedd yn gweddïo. "Am ba hyd?... Pam?... O! Dduw, helpa fi." Byddai'n gweddïo fel hyn drwy'r dydd.

Un diwrnod, gwthiwyd ef i'r toiled fel arfer. Gwelodd wn wedi ei adael yno. Cyflymai ei galon. Ai dyma ei gyfle? Mae'n amlwg fod un o'r gwarchodwyr wedi gadael y gwn yn y toiled. Petai'n defnyddio'r gwn a saethu'r gwarchodwyr, byddai ar ei ffordd allan o'r gell? Dyma'r cwestiwn

oedd yn llifo trwy ei feddwl. Hwn oedd ei gyfle. Ei unig gyfle i ddianc.

Ond gwyddai petai'n codi'r gwn y byddai'n rhaid ei ddefnyddio. Byddai'n rhaid iddo anafu rhywun neu hyd yn oed ladd. Gwyddai na allai wneud hyn. Credai fod defnyddio grym yn gwbl anghywir, hyd yn oed yn y sefyllfa roedd ynddi'n awr. Gwyddai y bydden nhw'n ei arteithio.

Galwodd ar y gwarchodwr. Pwyntiodd at y gwn. Cythrodd y gwarchodwr yn y gwn. Hyrddiwyd Terry Waite yn ôl i'w gell. Roedd y cyfle i ddianc wedi'i golli.

Bu'n rhaid iddo aros yn y gell am 1,763 o ddyddiau i gyd. Dioddefodd boen dychrynllyd. Byddai chwilod yn cnoi ei draed yn ystod y nos. Roedd y gell yn llaith ac arogl chwys ymhobman. Roedd yr unigrwydd yn llethol. Pryderai am ei deulu gartref ym Mhrydain ond wnaeth o ddim edifaru nad oedd o wedi defnyddio'r gwn.

Fe'i rhyddhawyd ef yn Nhachwedd 1991 ar ôl pum mlynedd mewn caethiwed.

"Bendithiwch y rhai sy'n eich erlid, bendithiwch heb felltithio byth."

Rhufeiniaid 12:14

Y tro nesaf, O Arglwydd,
y caf i'r cyfle i
wneud drwg
helpa fi i feddwl
ydw i yn gwneud
y peth iawn ai peidio?
Diolch am Iesu
a faddeuodd y cyfan
i'r rhai oedd yn ei erlid.
Amen.

Ydi hi'n iawn defnyddio trais ar unrhyw adeg?
Ydi defnyddio grym yn gwneud mwy o ddrwg yn y pen draw?

**Terry Waite: 1939-**